**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 2

# NEWIDIADAU RHEOLEIDDIEDIG

## RHAN 1

## POB YSGOL A GYNHELIR

1 Mae paragraffau 2 a 3 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir.

*Trosglwyddo safle*

2 Trosglwyddo ysgol i safle neu safleoedd newydd oni fyddai prif fynedfa'r ysgol ar ei safle neu safleoedd newydd o fewn 1.609344 cilomedr (un filltir) o brif fynedfa'r ysgol ar ei safle neu safleoedd presennol.

*Ysgolion rhyw gymysg ac ysgolion un rhyw*

3 (1) Newid a wneir i ysgol fel a ganlyn—

(a) bod ysgol a oedd yn derbyn disgyblion o un rhyw yn unig yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw, neu

(b) bod ysgol a oedd yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw yn derbyn disgyblion o un rhyw yn unig.

(2) At ddibenion y paragraff hwn mae ysgol i'w thrin fel un sy'n derbyn disgyblion o un rhyw yn unig os yw trefn derbyn disgyblion o'r rhyw arall—

(a) yn gyfyngedig i ddisgyblion dros oedran ysgol gorfodol; a

(b) heb fod yn fwy na 25% o nifer y disgyblion yn y grwp oedran a dan sylw sydd fel arfer yn yr ysgol.